Adroddiad Cyfarfod 08:03:23
Dathlu Gŵyl Ddewi

Cyfarfu'r gangen o Ferched y Wawr ar Fawrth yr 8 fed a chafwyd noson hwyliog dros ben. Yn hytrach na mynd allan i ddathlu Gŵyl Ddewi eleni cafwyd noson 'adref' oherwydd yn garedig iawn cynigiodd ein trysorydd Eirlys Williams wneud cawl cennin i bawb. Diolchwyd iddi yn gynnes iawn gan yr holl aelodau am baratoi cawl mor eithriadol o flasus. Cafwyd paned o de a chacen gri i orffen y pryd.

Roedd Gwenan ein hysgrifennydd yn methu â bod yn bresennol ond roedd wedi paratoi gêm chwilod i ddiddanu pawb, ac fe arweiniodd Mair Read y digwyddiad yn ddeheuig iawn, gyda Rhian Hughes yn fuddugol.

Anfonwyd ein cofion at Anne Elis sydd wedi derbyn llawdriniaeth, at Elizabeth Pen Parc sy'n well ar ol gwaeledd ac at Glenys Griffith sydd wedi torri ei choes. Yn haeddiannol iawn enillodd Eirlys y raffl ac Eryl yr ail wobr

Bydd ein cyfarfod nesaf nos Fercher Ebrill y 12fed, pryd y daw Meinir Owen atom i son am hanesion ei nain am longddrylliad y 'Royal Charter'.